RHIFYN
ISSUE
37
19.04.21

Llais Llantrisant

CROESO NÔL
WELCOME BACK

Croeso nôl i Mrs Flower wedi cyfnod o salwch. Rwy'n siwr fod y plant yn falch i groesawu Mrs Flower nôl.
Welcome back Mrs Flower following a period of illness. I'm sure the children are happy to welcome Mrs Flower back.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

03.05.21 - Gŵyl y Banc Mis Mai
May Day Bank Holiday
04.05.21 - Diwrnod HMS - staff yn unig
INSET Day - staff only to attend
28.05.21 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Sulgwyn
Children finish for Whitsun holiday
07.06.21 - Dychwelyd ar gyfer yr hanner tymor olaf
Children return for the final half term
16.07.21 - Diwrnod olaf y flwyddyn i'r plant
Last day of the year for the children

CROESO NÔL
WELCOME BACK

Croeso nôl i bawb ar gyfer tymor olaf y flwyddyn! Blwyddyn ryfedd iawn hyd yn hyn ond mae'n braf i weld pob plentyn yn yr ysgol!
Welcome back to the final term of the year! A very strange year so far but it's great to see all the children in school!

CINIAWAU YSGOL
SCHOOL LUNCHES



Os hoffech i'ch plant gael cinio ysgol am yr wythnos dyma'r drefn:
- **Talwch ar-lein am yr wythnos - £12.75 (cost pryd = £2.55)**
- **Bydd y plant yn archebu cinio bob bore yr wythnos yna pan fydd yr athrawon yn cymryd y gofrestr.**

Bydd Swyddfa'r Ysgol yn derbyn eich taliadau erbyn bore dydd Llun a gall yr ysgol drefnu lefelau staffio amser cinio am yr wythnos.
Cofiwch ebostio Swyddfa'r Ysgol os nad ydych wedi cadw cofnod o'ch rhif talu arlein unigol.

Should you wish for your children to have school lunches for the week, here's the procedure:
- *Pay online for the week - £12.75 (lunch cost = £2.55)*
- *The children will then order their lunch each morning that week when the teachers take the register.*

The School Office will receive the payments overnight by Monday morning and school can then arrange the relevant lunchtime staffing ratios.
Remember to email the School Office if you've misplaced your individual online payment number.

****Cofiwch edrych ar wefan yr ysgol i wybod mwy am dalu arlein**
***Remember to have a look at the school website to learn more about paying online*

BRYSIA WELLA, MRS HURST
GET WELL SOON, MRS HURST



Yn anffodus, nid yw Mrs Hurst yn yr ysgol ar hyn o bryd ond anfonwn ein dymuniadau gorau ati ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu nôl pan fydd yn bosibl.
Unfortunately, Mrs Hurst is not in school at the moment but we send her all our best wishes and look forward to welcoming her back when possible.



DYMUNIADAU GORAU, MISS POWELL
BEST WISHES, MISS POWELL

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Miss Powell wrth iddi weithio o gartref a dechrau ei chyfnod mamolaeth!
We send our best wishes to Miss Powell as she works from home before commencing her maternity leave!

STAFFIO
STAFFING

Gadawodd Mr Cox, y Gofalwr a Mr Dewi M Jones, Cynorthwydd Addysgu yn ystod gwyliau'r Pasg.
Mr Cox, Caretaker and Mr Dewi M Jones , Teaching Assistant, left us during the Easter holidays.

CASGLU DATA
DATA COLLECTION

Unwaith eto, hoffem atgoffa pawb am y llythyr yma a anfonwyd at bawb fis Rhagfyr. Ychydig iawn o ymatebion sydd wedi'n cyrraedd. Gofynnir i chi gwblhau'r taflenni casglu data a'u dychwelyd i: data.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda. Gofynnwyd i bawb wneud hyn erbyn Mawrth 26ain ond llai na ugain ffurflen ddaeth i mewn. Maent yn bwysig iawn ar gyfer rhesymau casglu data a manylion cyswllt.
Once again, we should like to remind everyone of this letter which was sent out in December. Very few responses have been received to date. We ask that you complete the data collection form and return it to: **data.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk** *as soon as possible, please. We asked for these forms to be returned by March 26th but we have received fewer than 20 forms. They are most important for data and contact details purposes.*

HYSBYSEBION PREIFATRWYDD
PRIVACY NOTICES

Hoffem dynnu sylw pawb at yr hysbysebion preifatrwydd ar dudalen hon gwefan yr ysgol.

We should like to draw everyone's attention to the privacy notices on this page of the school website.



CABANAU'R YSGOL
THE SCHOOL'S PORTAKABINS

Wel, maen nhw bron yn barod! Dim ond ychydig o waith ac adnoddau i'w harchebu sydd ar ôl i'w wneud a gallwn ddefnyddio'r ddwy ystafell newydd ar gyfer ymyraethau llythrennedd a rhifedd a fel ystafell TGCh a chyfryngau. #cyffrous #henbryd

Well, they are almost ready! Just a few small jobs to complete and resources to order and we shall be able to use the two new rooms as a literacy and numeracy interventions room and an ICT and media room. #exciting #atlast



HMS
INSET

Mae angen i bob ysgol gymryd 6 diwrnod HMS eleni, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn parhau gyda'n gwaith o baratoi at Gwricwlwm i Gymru. Mae eleni wedi bod yn anniben iawn! Gweler isod ein 4 diwrnod HMS hyd yn hyn. Byddwn yn trefnu'r 2 arall wap.

All schools in Wales are required to take 6 INSET days this academic year, in line with Welsh Government guidelines, to continue with our work of preparing for the new Curriculum for Wales. This year has been very messy! Please see below our 4 INSET days so far. We shall plan the remaining 2 ASAP.

12.04.21
04.05.21
19.07.21
20.07.21
https://bit.ly/32rctDx


Ewch i / *Remember to visit : www.ygggllantrisant.cymru*


HETIAU'R PASG
EASTER HATS

Diolch i bawb am helpu plant y Cyfnod Sylfaen i addurno het ar gyfer y Pasg - roedd ôl llawer o waith caled gan y plant! Oriel Gwefan yr Ysgol

Many thanks to everyone who helped the children in the Foundation Phase to create an Easter hat - there were obvious signs of lots of hard work by the children! School Website Gallery











CYLCH MEITHRIN - MUDIAD MEITHRIN
CYLCH MEITHRIN - MUDIAD MEITHRIN

Fis Medi eleni, y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd Cylch Meithrin, Mudiad Ysgolion Meithrin yn symud o bentref Pontyclun i Ystafell 1 yr ysgol! Newyddion cyffrous iawn i'r Cylch. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y grŵp, cysylltwch â natalie.hughes@flourish.cymru.

September this year, the intention at the moment is that Cylch Meithrin, Mudiad Ysgolion Meithrin (pre-school Nursery group) will relocate from Pontyclun village to Room 1 at the school! Exciting news for the Cylch. Should you need further information regarding this group, please contact natalie.hughes@flourish.cymru.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

flourish cymru

GWEFAN YR YSGOL
THE SCHOOL WEBSITE



Cofiwch fwrw golwg ar y tudalennau pwysig isod yn rheolaidd:
Remember to regularly visit the important pages below:
https://www.ygggllantrisant.cymru/coronafeirws-coronavirus/
https://www.ygggllantrisant.cymru/stream/newsletters/full/1/-//
https://www.ygggllantrisant.cymru/llais-llantrisant-cylchlythyr-yr-ysgol-school-news/

Dilynwch ni / *Follow us : @YGGGLlantrisant*